Cyfres Llanbedr | Ebrill, 1928 | Cyf. 28. Rhif 4.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. — Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Mrs. Evans, Cwmiago.
Lewis Jones o'r Felinfawr.
Mr. J. M. Howell.
Rhiw'r Amwisg.
Rebeca.
Priodas.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o

"TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

Anfoner i SWYDDFA'R YMOFYNNYDD, LLANDYSSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. EBRILL, 1928. Cyf. XXVIII. Rhif 4.

Mrs. Evans, Cwmiago.

A sorrow's *crown* of sorrows
Is remembering happier things.

Y MAE balm yn y cwpled ar waethaf y dagrau. Y galar sy'n clwyfo wedi cilio a rhyw alar pur a melys wedi cymryd ei le a dyn yn medru gweld y cwmwl du yn cilio ac yn cofio yr adegau dedwydd. Nid dyblu'r galar mohono ond yr haul yn disgleirio drwy'r gawod law, a gobeithiwn fod ein cyfaill annwyl wedi'i phrofi felly erbyn hyn, o golli un a fu'n nawdd a chefn iddo, ie, yn heulwen ei fywyd.

CROSS INN : DOWLAIS : CWMIAGO.

Nid yw'r tri enw ond awgrym o dri chyfnod ym mywyd Mrs. Evans, yr eneth fach yng Nghross Inn, y fenyw o fusnes yn Nowlais a gwraig pregethwr yng Nghwmiago mewn ardal wledig ar lannau Grannell.

Cross Inn.

Gŵyr llu am hen fwthyn bychan Cross Inn—hen fwthyn gwledig tô gwellt gynt, er fod y gwellt dan dô bellach. Y mae'r neb sydd wedi cerdded dyweder o Fwlch y Niwgat neu o Gwrtnewydd i Gapelygroes yn gwybod yn dda am yr hen groesffordd fach a'r bwthyn ar y tro. Yma y trigai gynt ŵr o'r enw Thomas Lewis, gŵr a rhuddin Undodaidd iddo, ac wyres iddo, merch ei fab John oedd Mrs. Evans. Yr oedd yn eneth saith oed cyn iddi gefnu ar yr ardal, i ddychwelyd ymhen blynyddoedd i fod yn wraig gweinidog Capelygroes.

Dowlais.

Treuliodd ysbaid hir o'i bywyd yn Nowlais a bu am 21 flynedd yng ngwasanaeth tad yr Athro Young Evans mewn Siop ddillad a bu yn cadw siop ei hun am amryw flynyddoedd. Nid yw ei hanes yn Nowlais ond hanes llu eraill yn brwydro a'r byd ond ni anghofiodd yr egwyddorion a blannwyd yn ei chalon ieuanc yng Nghross Inn a bu yn ffyddlon i'r achos bychan yn Nowlais—yntau fel hithau wedi diffodd erbyn hyn.

Cwmiago.

Rhyw ugain neu ragor o flynyddoedd yn ol clybu alwad dyffryn Grannell a lleisiau a chalonnau bore oes, a dychwelodd i gartrefi yng Nghwmiago. Daeth yn ol i'r hen fro a thaflodd ei hun i bob mudiad daionus. Clywid ei llais yn y côr ar ddydd Cymanfa. Nid oedd neb parotach ei ateb yng Nghymanfa'r Pwnc. Anfynych y'i gwelid yn absennol o gyfarfodydd yr enwad. Nid ae neb i aelwyd Cwmiago heb deimlo fod ei chalon yn curo mewn cydymdeimlad a holl weithrediadau'r enwad. Yr oedd yn Undodwraig o argyhoeddiad. Lawer tro bu dadl frwd parthed Yr Ymofynnydd a'r "Llyfr Emynau" ar yr hen aelwyd lle nid yw mwy. Yr oedd yn anodd cael un yn dymuno lles yr enwad yn fwy. Llafuriodd gyda'i dosbarth yn yr Ysgol Sul a chyda phob cangen o waith yr eglwys. Gwnaeth ei rhan ac wedi diwrnod da o waith noswyliodd yn rhy gynnar. Gwraig blaen, a'i chalon yn llawn heulwen ydoedd. Ni chredaf fod cartref i ddichell na gwg yn ei chalon yn hir. Calon onest garedig oedd ei chalon hi. Y mae'n felys cofio hyn a hithau wedi blaenu.

Y mae ardal gyfan yn rhwym o'i cholli, a *rhywun* yn *unig* ar aelwyd Cwmiago a'r gannwyll wedi diffodd yno, ond cofied am eiriau Scott,—

"Love is loveliest when embalmed in tears."

Lewis Jones o'r Felinfawr.

YCHYDIG yw nifer y rhai a gofia am Lewis Jones o'r Felinfawr (neu Felinban, yn yr amser olaf o'i fywyd). Y mae wedi cefnu ar y fuchedd hon, bellach, er's oddeutu hanner can mlynedd. Safai'r Felinfawr ar dir Waunani, ymron ar ymyl yr afon Grannell. Y mae wedi peidio a bod fel ty annedd er's oddeutu deugain mlynedd; ond erys peth o'i adfeilion eto—prin digon i ddangos y lle y bu. Gelwid ef wrth yr enw Felinfawr, yn debygol, i'w wahaniaethu oddiwrth le o'r enw Felinfach, ychydig yn is i lawr yn y dyffryn, yn ymyl Llanwnen, man geni'r Parch. John Evans o'r Gellionnen. Gyda llaw, rhyfedd ydyw y fath nifer o "felinau" a geid ar lannau Grannell yn yr hen amseroedd. Dyna Felin y Blaenau, Melin Hafodwen (neu, Felin Capel Sant Silin), Melin Llysfaen, y Felinfawr, y Felinfach, a'r Felin Raber. Dim ond dwy o honynt sydd mewn bod heddiw fel melinau, sef, Melin Hafodwen a'r Felin Raber. Y mae y lleill i gyd wedi peidio a bod—tu fewn i'm cof i y rhan fwyaf o honynt. Nid yw'r pellter o darddiad yr afon i'w genau yn fawr—prin chwe milltir, belled ag y medraf farnu. A chwech o felinau ar ei glannau! Y mae lle arall o'r enw Felinban; eithr nid melin lafur oedd yno fel yn y lleill; yn hytrach, fel yr awgryma'r enw, Melin Bannu. Yr oedd Melin Bannu arall, ynghyd a gweithfa wlan yn ei hymyl, ar lan Grannell yn yr amser a fu—ar dir Penbryn. Y mae'r Felin Bannu wedi diflannu; ond erys y weithfa wlan eto ychydig yn nes i'r Cribyn—sefydliad llawer eangach na'r hen, gyda phob math ar beiriannau o'r cynlluniau diweddaraf, a weithir drwy gyfrwng trydan. Nid yn aml y gwelid afon o faintioli Grannell gyda chynifer o ddiwydiannau ar ei glannau.

Yn y Felinfawr y trigiannai Lewis Jones pan ddeuthum i i adnabyddiaeth o hono gyntaf. Treuliodd ddiwedydd ei fywyd yn y Felinban; ac yno y bu farw yn 1886. Wyr iddo, fab merch, ydyw'r Parch. Lewis Williams, Alltyplaca; y sydd, fel mae'n flin gan ei edmygwyr feddwl, wedi'i analluogi gan afiechyd er's cryn amser i lanw'i le fel gweinidog. Caffed adferiad buan. Labrwr oedd Lewis Jones o alwedigaeth, a gweithiai yma a thraw, ond yn bennaf ar ystadoedd y Llwynygroes a'r Neuaddfawr. Yr oedd yn fynychydd cyson o Gapelygroes, ac yn edmygydd mawr iawn o Mr. Thomas. Braidd na ellir dywedyd ei fod yn hanner addoli Mr. Thomas; a gwae a fyddai i'r neb a anturiai ddywedyd gair anffafriol wrtho am dano. Gwneid hynny weithiau gan ambell un er mwyn cythruddo'r hen wr; ac fel rheol, llwyddid; oblegid, o wneud hyn, cyffyrddid a'i fan gwan—neu ei fan cryf, efallai.

Gyda bod y geiriau'n disgyn ar ei glustiau, gwelid ei wefusau'n dechreu crynu, a dagrau yn rhedeg dros ei ruddiau. Ymosodai ef yn aml ar Mr. Thomas yn ei glyw ; yn bennaf, ar gyfrif ei ffafraeth ymddangosiadol i'r Apostol Paul, neu os digwyddai iddo fod ychydig funudau ar ol ei amser ; ond ni chaniatai i neb arall i wneud hynny. Yr adegau hyn, gallai'r anghyfarwydd a'r ddau yn hawdd dybied eu bod ar delerau anghyfeillgar a'i gilydd. Yr oedd Lewis yn dal yn gryf dros gadw amser neu fod yn brydlon ; o leiaf, proffesai fod felly. Fore Sul, pan ddoi Mr. Thomas i'r golwg ar gwr uchaf y fynwent, tua chanlath o'r fynedfa i'r Capel, tynnai Lewis ei oriawr allan, daliai hi ar dor ei law, gyda'r gadwyn wedi'i throi o gylch ei fawdfys, syllai arni hyd y deuai Mr. Thomas yn ddigon agos, yna cyfarchai ef yn debig i'r a ganlyn : " 'Rych chi wedi dod yn weddol agos i'ch amser heddi, Mr. Thomas," neu, " 'Rych chi ar ol eich amser heddi, Mr. Thomas." Os y cyntaf, darfyddai'r siarad ; os yr ail, yna ai'r ysgwrs trwy'r lle ; tynnai pobun ei oriawr allan, a honnai pobun fod yr amser iawn gydag ef ; yr oedd pobun wedi cael yr amser iawn o rywle ddoe neu neithiwr, ac nid oedd camsynied yn bosibl. I mi, perai hyn gryn dipyn o betruster—sut yn y byd yr ydoedd yn bosibl i bobun o honynt fod yn iawn. Ar ol cyndyn ddadleu o honynt fel hyn am beth amser, eid i mewn i'r capel.

Brydiau eraill, cyfarchai Lewis Mr. Thomas i'r perwyl a ganlyn : "'Nawr, Mr. Thomas, peidiwch chi a dewis eich testun o'r hen Apostol Paul yna heddi. Hen gnaf tost oedd Paul. 'Roedd e'n dal dillad y rhai a laddodd Stephan ; a bu ef ei hun yn erlid y Cristnogion. Ddylai'i 'pistole fe ddim bod yn y Testament Newydd o gwbwl. Hen filain o ddyn oedd e." Dyna sylwedd ei sylwadau, cyn belled ag y medraf eu cofio ; a chredaf fy mod yn eu cofio'n dda iawn o gywir—fe'i clywais gynifer o weithiau. Yr oedd Lewis yn cashau Paul a chas perffaith ; oedd, yn ddiamheuol, yr oedd yn ei gashau a chas perffaith. "Do," fe ddywedai Mr. Thomas mewn atebiad iddo, " fe fu'n ddyn gwael ; ond fe gafodd droedigaeth, welwch chi." " Troedigaeth, wir ! " ebe Lewis ; a dywedai hyn gyda theimlad angherddol, i'n golwg ni ; " troedigaeth, wir ! Ond dyma beth wna i a chi, fe a i i'r Eglwys, os ych chi'n mynd i bara i ddewis eich testunau o'r hen Apostol Paul yna." Dywedai hyn fel pe'n ei feddwl ; ond gwyddai pawb nad oedd dim yn y bygythiad ; yn wir, chymrai Lewis mo'r byd am droi'i gefn ar Gapelygroes a'i weinidog.

Ar ol traddodi o hono ei anathema uwch ben Paul, a bygwth Mr. Thomas o'r canlyniadau o wneud un sylw pellach o hono, eid i mewn i'r Capel. Ar ol mynd trwy'r rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, codai Mr. Thomas i bregethu, a disgwyliai'r gynull-

eidfa glywed beth a fyddai'r testun ; ac ymron yn ddieithriad, testun o un o lythyrau Paul a fuasai. Ymddengys i mi, yn wir, o gofio am y peth, bod Paul yn gryn dipyn o ffafryn yngolwg Mr. Thomas ; oblegid o'i lythyrau ef y dewisai ei destunau fynychaf —o leiaf, gryn dipyn yn amlach nag o un rhan arall o'r Testament Newydd. Gynted ag y disgynnai geiriad y testun ar glustiau'r gynulleidfa, troai pob un ei olwg i gyfeiriad Lewis. Ar ol dod allan o'r gwasanaeth, gellid clywed aml i sylw o'r fath a ganlyn— " fe ddewisodd Mr. Thomas ei destun o lythyrau Paul wedi'r cwbl ; rhaid ei fod yn gwneud hynny'n bwrpasol." Ond—dyma beth sydd hynod yw hyn : gynted ag y darllenai Mr. Thomas ei destun ac y dechreuai siarad, gwelid y dagrau'n dechreu llifo dros ruddiau Lewis ; amlwg ydoedd bod naill ai Mr. Thomas neu Paul wedi llwyddo i agor drws y ffynnon, a deuai'r gorllanw allan yn berlau gloyw, gan redeg i lawr dros ei ruddiau yn ffrwd ddi-dor. A dyma beth hynod arall—ni chai'r un pregethwr arall yr un fath ar effaith arno ag a gai Mr. Thomas. Nid ai un gwasanaeth heibio, os Mr. Thomas a fuasai'n gwasanaethu, na welid dagrau yn llifo dros ruddiau Lewis ; ond os rhyw bregethwr arall a fuasai'n gwasanaethu, ni ddeuai un deigryn i'r golwg o ddechreu tan ddiwedd y gwasanaeth. Nid sicr ydwyf yr hoffai weld un pregethwr arall yn dod yn agos i'r lle. Un bore Sul, er enghraifft, digwyddodd dau neu dri o bregethwyr fod yn bresennol gyda Mr. Thomas. Ni chofiaf yn gywir pa sawl un oedd yno ; nac ychwaith y rheswm dros eu dyfod yno ; na phwy oeddynt ; ond y mae'r digwyddiad yn fyw iawn ar fy nghof. " Hawyr," ebe Lewis, pan welodd hwynt, " Oes gyda chwi ddim gwaith yn rhywle arall heddi ? Beth 'ych chi'n mofyn fan hyn i gyd ? " Ni chofiaf a ddarfu i un o honynt ateb. Dyna'r cwbl o'r digwyddiad y sydd wedi aros ar fy nghof.

Yr oedd Lewis yn Undodwr o'r Undodiaid. A gwyddai beth oedd Undodiaeth. Nid oes amheuaeth parthed y mater hwn. Yn aml iawn, codai dadl rhyngddo a Mr. Jones, Llwynygroes. Meddai Mr. Jones wrtho, un tro : " Pam na ddowch chi i'r Eglwys weithiau, Lewis ? " " Wel, wir, syr, fe weda i wrthoch chi— mae'n gas gen i wrando ar yr hen fferem 'na sy' gyda chi. Wn i ddim sut ych chi heb flino arni—dweyd yr un peth Sul ar ol Sul. Na, chymrwn i mo'r byd am wrando ar eich hen fferem chi." Ni wnai Mr. Jones ond gwenu. Yr oedd Mr. Jones yn eglwyswr eithriadol o selog ; ond nid oedd yn rhagfarnllyd. Ni wnai ef orfodi neb i fynd i'r Eglwys yn groes i'w ewyllys. Dyna, o leiaf, yw fy marn i am dano. Er hynny, ychydig iawn oedd nifer y rhai a feiddai siarad ag ef yn y dull eofn y gwnai Lewis.

Rhaid imi, yn awr, ffarwelio ag ef. Nid diffyg mater a bair imi wneuthur hynny, eithr ofn siswrn y Golygydd*. Nid rhodd

* Dim perigl. Ni thâl mo'r esgus yna eto.—Gol.

ei hanes a ddarfu imi geisio gwneuthur. O'i hanes—o fanylion ei fywyd—yn wir, ni wn ond ychydig iawn. A hyd yn oed pes gwyddwn, ni fuasent, yn debygol, o un diddordeb i neb. Cyffelyb yw manylion ei fywyd i fanylion bywyd miloedd eraill o ddynion a benywod ; a gellid yn hawdd eu crynhoi tu fewn i gwmpas cyfyng "carreg goffa." Ond perthynai iddo rai nodweddion a'i gwahaniaethai oddiwrth ddynion a benywod eraill ; a thynnu cwr y llen yn ol er i'r darllenydd gael cipolwg arnynt—dyna'n unig a geisiais wneuthur. Un o ffyddloniaid Capelygroes ydoedd ; a diameu gennyf ei fod yn mwynhau ffrwyth ei ffyddlondeb mewn byd gwell.

D.E.

Mr. J. M. Howell.

"Yn ei dadl echdoe'n dwedud,
Ddoe'n fyw iach a heddyw'n fud."

HAWLIA mawredd inni gerdded oddiwrtho cyn y datguddia i'n llygaid ei werth yn briodol. Geill efe ddal y praw a esyd pellter arno. Yn hytrach na cholli ei urddas, ychwanegir ato.

Nid o'i sawdl yn Llanberis y canfyddir gogoniant yr Wyddfa. Teithier i Fon, ac yna ceir cyfle i'w hadnabod yn ei cheinder. A athrylith yr arlunydd ar goll os llygadrythir ar ei gynfas. Symuder i fan addas, a thyf yr ysblander megys breuddwyd o'n blaen.

Heddyw, safaf yn rhy agos at Mr. J. M. Howell i'w weled yn gyfan. Yr oedd yntau yn ormod o ddyn i gyfnod byr ddangos ei werth. Tipyn yn gynnar yw hi eto i fwrw golwg gyflawn arno. I'm tyb i, caiff amser dreiglo nes ein gwahanu gryn bellter yn hwy.

Cefais y fraint o'i adnabod oddiar fy mebyd. Bu fy rhieni yn gymydogion iddo. Siglwyd fy nghrud i'w barchu ac i'w efelychu mewn gwasanaeth didwyll. Daeth yn arwr i'm dyddiau cynnar, a thyfodd fy edmygedd ohono fwy-fwy drwy gydol ei yrfa.

Paham yr hoffais Mr. Howell gymaint ? Yr ateb syml a roddaf yw mai ar gyfrif ei rinweddau. Medraf dystiolaethu ar bwys adnabyddiaeth drwyadl ei fod yn ddyn hawddgar ei ysbryd.

Perthynai gormod o fawredd iddo i feddu rhodres. Cydymdeimlai ag angen, a chyfrannai a'i law ddeheu heb hysbysu ei aswy o hynny.

Profedigaeth lem i ddynion o allu a safle Mr. Howell yw traarglwyddiaethu ar adegau. Ni fu hyn yn fagl iddo ef. Yn rhinwedd ei swydd fel pen-blaenor ac ysgrifennydd ei eglwys cafodd ei gyfle i ddangos ei awdurdod. Eithr ni fynnai wthio ei farn ar neb, ond ymarferai ei ddoethineb yn ddidramgwydd.

Fy hun, byddaf yn dra awyddus i wybod ychydig ffeithiau ynglyn a bywyd dirgel y dyn cyhoeddus a hoffaf. Holaf am y pethau cyffredin. Y gofyniad cyntaf a ddaw yw hwn—fath un ydyw ymysg ei deulu ?

Sylwais ddigon i wybod am Mr. J. M. Howell ei fod yn briod caruaidd, a thad gofalus. Hoffai ei gartref yn angerddol, a hwnnw oedd ei gastell a'i hyfrydwch. Bu marwolaeth Mrs. Howell yn groes drom iddo ei dwyn. Ni soniai byth amdani heb i'w ddagrau gronni ar fyr.

Colled anrhaethol i bwyllgorau ei sir enedigol a fydd enciliad Mr. Howell. Llafuriodd ynddynt yn ddyfal drwy'r blynyddoedd heb ddegwm o'r gymeradwyaeth a haeddai. Ni arbedodd amser nac egni na threuliau mewn gwasanaeth cyhoeddus. Y dyfodol yn unig a ddengys ei werth yn y cylchoedd hyn. Caiff ei ardalwyr fyw i wireddu fy ngosodiad hwn.

Cofiaf yn dda imi unwaith daro i mewn i'r siop ato ar neges. Cyflawnodd yr hyn a ymddangosai ymron yn wyrth. Siaradai drwyddi draw a chwech o ddynion. Yr oedd ganddynt oll eu cais. Am hanner awr o amser cymysgid pob trafodaeth gan air hwn a'r llall. Drwy'r cyfan cyflawnai efe ei waith o werthu cloion neu bwyso hoelion yn ddiwall. Ceisiai un o'r cwmni gan Mr. Howell i ddarlithio iddynt ym Mhontsaeson. Chwilio cyhoeddiad ar Sul arbennig a fynnai'r ail. Gofyn cymorth i ennill swydd i'w fab oedd baich y trydydd. Daeth gwr o Gilcennin dros ei bwyllgor i estyn yr anrhydedd o lywyddu yn yr eisteddfod flynyddol. Angen dyn ieuanc o Benuwch oedd gwneud trefniadau i ymfudo. Ar draws y cyfan torrai dadl rhwng Mr. Howell a grwgnachwr o Bennant ynglyn a phenderfyniad pwysig a luniodd y Cyngor Sir.

Druan ohonof ! Ni chefais fy nwyddau ar hynny o bryd, ond, hwyrach i mi gael rhywbeth gwell, sef bod yn dyst o allu Mr. Howell i ddwyn trefn allan o'r tryblith i gyd.

Byddai digwyddiadau cyffelyb yn dod yn fynych i'r siop. Nid eithriadau yn ei fywyd a groniclais, ond profiadau beunyddiol. Yr oedd gan Mr. Howell gymaint o heirn yn y tân fel mai camp i ddewin fuasai cadw ei fysedd rhag llosgi. Rhinwedd amlwg ynddo oedd ei allu i gadw'n gyfan ei addewidion.

Perthynai Mr. Howell i enwad parchus y Methodistiaid. Ganwyd ef i'r fraint honno. Yn fy myw y medraf feddwl amdano yn gartrefol hollol yn y gorlan grefyddol honno. Dywedais hynny wrtho ragor nag unwaith. Chwarddai yntau bob tro, yn iachus wrth fy nyfarniad. Credaf o hyd ei fod yn ormod o Annibynnwr mewn ysbryd i'w rwymo wrth "Gorff." Tipyn o orchest i mi yw sylweddoli iddo aros dros ei ieuenctid yn Fethodist. Yr adeg honno glynai ei enwad yn ddygn iawn wrth geidwadaeth. Ar y llaw arall, llywodraethid ef ag asbri meddyliol. Pa fodd y goroesoedd Mr. Howell y cyfnod hwnnw yn ddirwystr? Dyna broblem na fedraf ei dadrys. Brwydrodd, mae'n debig iawn drwy ei anhawsterau nes parhau hyd y diwedd yn golofn i achos y Methodistiaid.

Hwyrach hefyd i'w ddylanwad gerdded ymhell i brysuro'r mudiad sydd heddyw yn cynniwair drwy wersyll ei enwad. Ar faterion athronyddol meddyliai yn agored a rhydd. Yn sicr, ni wnai efe ddioddef "Cyffes Ffydd" hynafol yn gadwyn am ei ysbryd. Bellach, clywir swn y llyffetheiriau yn syrthio, a rhyddid yn dod dan goron. Pwy a fesur ddylanwad Mr. Howell yn y dadeni hwn?

Ym mlynyddoedd olaf ei oes gwasanaethodd Mr. J. M. Howell fel pregethwr cynorthwyol. Nid cynorthwyo ei hun yn y pulpud, a rhwystro pob pregethwr arall a wnai efe. Eithr yr oedd yn gynorthwyol mewn pulpud a set fawr.

Elai at bob enwad yn ddiwahaniaeth i draethu ei genadwri, gan aberthu arian i fudd yr eglwysi gweiniaid.

Cefais y fraint o'i wrando ar un achlysur. Euthum gydag ef mewn modur i gapel Fronwen, Llanarth. Ymgasglodd nifer o wladwyr syml ynghyd yn hwyr y dydd. Pregethodd Mr. Howell iddynt ei gyfansoddiad manwl, mewn iaith goeth, gyda dychymyg chwim nes syfrdanu ei wrandawyr. Yr oedd ganddo weledigaeth, a mynegai yntau hi ag angerdd. Gan amlaf, glynai wrth ei nodiadau. Rhoddai floedd yn awr ac eilwaith mewn llais dwfn a melodaidd. Yna, distawai i ddifynnu o weithiau Islwyn, ei hoff fardd. Dilynid hyn a gair "o'r frest." Wedyn yr oedd deigryn yn nghil ei lygad, a goslef grynedig. Ymgollai mewn teimladau dwys wrth adrodd profiad tyner neu ddigwyddiad llednais.

Daeth diwedd y gwasanaeth, ac ymsoniais innau yn y dull yma —onid yw hwn yn broffwyd i'r gwirionedd ?

Safodd Mr. J. M. Howell yn y rheng flaenaf Rhyddfrydwyr Ceredigion am flynyddoedd. Bu fyw drwy frwydrau pwysig, ac ymladdodd yntau bob amser oddiar egwyddorion cryfaf ei enaid.

Condemniwyd ef gan gedwadwyr. wrth gwrs. A phwy a wrthyd iddynt yr hawl.

Yn deyrnged i'w ryddfrydiaeth dyrchafwyd Mr. Howell i'r fainc ynadol yn gynnar. Llanwodd yr ymddiriedaeth ag urddas. Medrai'r gwerinwr anllythrennog fyned ato i adrodd ei gŵyn a dweyd ei stori yn syml.

Ar un achlysur cofiaf i Mr. Howell gael ei enwi fel ymgeisydd seneddol dros ei sir enedigol. Oni chollwyd. yr adeg honno, gyfle i osod anrhydedd gweddus ar ei ysgwyddau ? Do. ond triniwyd yntau yn ol arfer Ceredigion. Y farn yno yw mai melysach y dwr a gludir dros afon na'r ffrydiau a dardd o'i daear ei hun.

Cytlawnodd Mr. J. M. Howell waith dirfawr mewn gwahanol gyfeiriadau. Yr oedd bob amser mor brysur a gwenynen ym Mehefin. Casglu mel yn hytrydwch i bobl ereill a wnaeth. Bu'n bopeth i bawb gan aberthu ei chwaethau uchaf. Yn wir, nid rhyfyg fuasai cyhoeddi iddo wneud gormod. a hynny ar draul uchel.

Breintiwyd ef ag amrywiol ddoniau nes iddo fethu a chyfyngu ei hun i un anturiaeth fawr. Barnaf mai yn y byd llenyddol y gorweddai diddordeb pennaf Mr. Howell. Praw o hyn yw ei nodion wythnosol yn y "Cambrian News." Medrai ysgrifennu mewn rhyddiaeth a barddoniaeth. yn Gymraeg a Saesneg. Yr oedd ganddo lygad craffus. talent at ddisgrifio'n wych. dawn i adnabod dynion. dychymyg byw. a thoreth o hiwmor iachus. Ar gyfrif hyn. doniwyd ef fel nofelydd. Yr alanas heddiw yw na chymerodd ei ffrwyn ar ei war a chyfansoddi gorchestwaith llenyddol i'w genedl. Rhwystrwyd ef i gyflawni hyn gan ddyletswyddau mân i drigolion Aberaeron a'r cylchoedd.

Dyma fi bellach yn dirwyn fy nheyrnged i ben. Bydd gwagle yn fy mywyd byth mwy oherwydd ymadawiad Mr. J. M. Howell. Trwy drugaredd, gobeithiaf am fraint i'w gofio am flynyddoedd eto. Ymysg fy nhrysorau bydd gennyf ddau lythyr a ysgrifennodd ef ataf mewn amgylchiadau pwysig. Bydd. a llawer o atgofion gwerthfawr. Dyma un ohonynt.

Noson fraf yw hi ym Medi. Safaf gan bwyso ar ganllaw'r bont yn Aberaeron. Gwyra haul tanbaid mewn cochni tua'r gorllewin. Torrir ar fy myfyrdod gan swn rhywun yn mwmian ton. Edrychaf i lawr y ffordd. Dacw ddyn golygus yn dynesu'n hamddenol. Dan ei fraich ceir nifer o lyfrau a phapurau. Er hynny, chwery ei ddwylo'n anesmwyth. Daw ataf, a chyferchir gwell. Ar fyr dro, dyma ni ein dau mewn afiaith.

Dysgais un peth pwysig yng nghwmni Mr. Howell. Y wers honno oedd bod yn dawel fy hun er mwyn iddo ef gael siarad. Gwyddwn mai rhagorach i mi oedd derbyn yn hytrach na cheisio rhoi yn ei gwmni ef.

Hanner nos! Rhaid ymwahanu yn swn ei eiriau olaf—"Fe gaf eich gweld yn y bore."

J.M.! Yr wyf heddiw yn nos fy unigedd am i chwi gilio. Ond, gobeithiaf gwrdd eto,—ryw fore. Hyd hynny,—Hawddamor!

"Ar ei fodd ni ryfeddwn
I Dduw a'i saint ddewis hwn."

J. Seymour Rees.

Rhiw'r Amwisg.

HEN frawd deallus, doeth, darllengar yw John Jones. Geilw pawb yr hen frawd yn Shon y Cardi. Y mae wedi byw yn yr ardaloedd gweithfaol hyn am ryw ddeugain mlynedd. Ond am ei hen ardal yn Sir Aberteifi yr hoffa son. Y mae'n byw ar y dôl; ac amhosibl yw iddo gael gŵyl yn yr hen Sir. Ond, ys dwed yntau, y mae adrodd hen atgofion wrth gyd-Gardi gystal ag wythnos o ddŵr y môr iddo. Neithiwr treuliais yr hwyr yn ei gwmni, ac adroddodd i mi rai o gofion mebyd yn rhywbeth tebig i hyn.

"Ambell waith teimlaf ei bod yn rhaid imi fynd yn ol. Weithiau cyfyd arnaf yr awydd i gerdded yr holl ffordd. Ond nid yw'r awydd erioed wedi troi'n weithred. Mae cerdded can milltir yn ormod tasc i'm deutrued i hyd yn oed pe cawswn wythnos ar ei hyd i'w gyflawni. Bryd arall daw arnaf ysfa i gymryd y trên cyntaf am Gaerfyrddin—ac ambell dro i ffwrdd a mi, heb yngan gair wrth neb. Ond y rhan amlaf o lawer, ni chaniata nag amser,

na dyletswydd, nag arian poced imi wneud rhagor nag eistedd i lawr yn fy nghadair wrth y tân, a myned yn ol mewn breuddwyd—y cerbyd buanaf a rhataf, a hynaf o'r holl gerbydau ar a ddyfeiswyd erioed. A newid ychydig ar ddywediad yr anfarwol Sancho Panza: 'Bendith ar ben y gŵr a ddyfeisiodd freuddwyd.' Ac wele fi ar darawiad amrant yn cerdded i fyny Riw'r Amwisg, gan ddechreu wrth Lynnau Alltmaen: nid fel y maent heddiw, wedi eu mogi gan dwf y blynyddoedd, ond fel yr oeddynt, yn glir, yn llydan, a glas: a llysiau cynffon y gaseg yn tyfu ar eu glannau, yn edrych fel miloedd o bicellau sandwyr yn sefyll yn syth ar draeth y môr. Llawer o oriau difyr a dreuliwyd yma ar ddydd o aeaf eglur, iachus, a'r gwynt yn chwythu o Rydyrhaearn—neu o'r dwyrain fel y dwedir yn iaith ddi-ramant y dyddiau hyn; *anti-cyclone off Scandinavia*, efallai, a gyhoeddir heddiw hyd yn oed yn y mannau diarffordd hyn: ond yn nyddiau fy mebyd, y gwynt o Rydyrhaearn fyddai'n dwyn sychter, a rhew, a chyffe i sleidro ar Lynnau Alltymaen.

Heibio'r Llynnau hefyd yr ai trafnidiaeth y wlad, i Landysul a Cheinewydd: weithiau yn yr haf, byddai torf fawr yn mynd mewn gamboau a cherti i lan y môr, a dychwel dan ganu hymnau yn yr hwyr, ac atsain diod y tafarn diweddaf yn nodau rhai o'r cantorion. Yn y gaeaf, ai ambell wythnos gyfan heibio heb inni weld neb yn myned heibio o gwbl. Yn achlysurol deuai Dai Landudoch ar ei dro gan weiddi 'fresh herrin' neu 'fresh cocs': a chlywem ei lais ymhell cyn gweld pen cysglyd ei hen geffyl oedrannus yn ymddangos ar dro cyntaf y Rhiw, a Dai yn eistedd ar ymyl y cart, ag un law yn dal y lein, a'r llall—llaw ddiffrwyth, yn ceisio cadw'n gynnes ym mhoced ei got. A dyddiau cyraeddol i ni oedd y rheini pan gaffem y fraint o fyned a chwe' cheiniog mewn padell i gwrdd a Dai Landudoch yn dyfod heibio ar hyd y ffordd fawr, yn gwerthu sgadan Aberporth neu gocls Llansteffan.

Ambell dro byddem yn gofyn am ddyrnaid o gocls am ddim ganddo, ac fel rheol, byddem yn eu cael. Un tro, modd bynnag, daeth rhyw werthwr arall heibio, ac mewn ateb i'n cais am gardod atebodd yn sarcastic: 'R wthnos nesa rwyn dod heibio a chocls am ddim machgen i! A dyna ddiwedd ar ofyn elusen ar law gwerthwyr cocls.

Ond awn heibio Pen Lôn Alltmaen, heb aros yma'r tro hwn, ac i fyny'r Rhiw. Dichon fod Benni Blaencwrt yn eistedd ar garn o gerrig dan gysgod llwyn drain tua hanner y ffordd i'r banc; ac y mae Benni yn awdurdod ar gerrig, a phregethwyr, a bwciod: a thelir sylw parchus gan amaethwyr y fro i'w farn ar y tywydd. O'r pethau hyn bwciod wrth gwrs sydd o fwyaf diddordeb i ni

blant ; ac i rai mewn oed hefyd, a chyfaddef y gwir. Wel, dyma a ddywed Benni am y rheswm y gelwir yr heol hon yn Rhiw'r Amwisg.

Flynyddau lawer yn ol ; yn wir oesoedd ar oesoedd yn ol yr oedd hen frenin yn byw yng Nghastell Newydd ; un o hen frenhinoedd Cymru Fu ydoedd, a'r Castell oedd ei drigfod ar adegau neilltuol o'r flwyddyn. Ac yr oedd y bobl yn byw yn hapus a heddychol o dan ei deyrnwialen. Ond ryw ddiwrnod, dyna haid echrydus o fôr-ladron yn glanio yn Aberteifi, a llosgi'r dref, a lladd yn ddiarbed y ffordd y cerddent. I fyny a hwy drwy ddyffryn ffrwythlon Teifi, gan adael Llechryd a Chilgerran i ddiflannu mewn colofnau o fwg.

O'r diwedd ymosodasant ar y Castell Newydd ; ac wedi gwarchae hir a chreulon, syrthiodd i'w dwylaw milain. Eithr diangodd y brenin dros ymyl y bryn, a'i wyneb am Benrhiw Pal—ni wyddai Benni a oedd y tafarn yn agored ar y pryd—p'un ai oedd neu beidio, ni chyrhaeddodd y brenin druan hyd at y fangre, ond goddiweddwyd ef ddwy neu dair milltir o'r lle : ac yno y dienyddiwyd ef heb fawr seremoni ; a gelwir y fan hyd heddiw yn Fryn Dioddef. Oddiyno llusgwyd ef i fyny drwy Ffostrasol, heibio Capel Cynon, a than yr Allt Ddu ;—dichon nad oedd y ffordd ond llwybr troed yn y cyfnod hwn,— ac i'r lan yr aed a'r corff i fanc Alltymaen ; ac yno y gadawyd ef, yn fwyd i'r blaidd a'r gigfran. Ond wedi cefnu o'r angenfilod a'i llofruddiodd, cymerodd tyddynwyr y fro drugaredd ar gelain ddrylliedig eu brenin ; a chladdwyd ef mewn congl o'r banc, gan osod carreg wen fawr i nodi man ei fedd. Ac yno y mae'r maen i'w weld y dydd heddiw : ar ymyl y ffordd sydd yn arwain o'r Synod i Landysul, ryw chwarter milltir o Ben Lôn Alltymaen. Am gymryd o'r bobl gorff y brenin wedi ei lapio mewn lliain gwyn, a'i gladdu ar ben y rhiw, y gelwir y tyle hyn hyd heddiw yn Rhiw'r Amwisg. Ond nid yw'r stori yn gorffen yma : pe buasai'r hen deyrn wedi gorffwys yn dawel yn y man y gosodwyd ef gan ardalwyr y fro ; pe buasai wedi ymddwyn yn ddiolchgar at y deiliaid a gymerodd drugaredd ar ei gorpws gwael : popeth yn dda. Ond yn awr ac yn y man myn yr hen frawd ddychwelyd i roddi tro o gylch ei garreg fedd : diau nad yw yn ei fryd ddychrynu neb pwy bynnag : ond gnawd i ddyn meidrol ofni bwci. Yn hyn o beth, modd bynnag, yr oedd Benni, a Phegi ei wraig, a dwy neu dair eraill o hen wragedd y fro yn esgyn ar brydiau uwchlaw gwendidau meidroldeb.

Mewn gair, yr oedd y bobl hyn wedi gweld y Bwci lawer gwaith, rhwng cyfnos a gwawr, ond y rhan amlaf ryw awr eyn caniad y ceiliog, yn rhodio'n hamddennol, i lan ac i lawr, rhwng pen a

gwaelod y Rhiw. Weithiau nid oedd namyn drychiolaeth wen anelwig, nad ellid dweyd ei bod ar lun dyn nag anifail o fath yn y byd : rhyw gysgod yn symud fel cwmwl o let y Banc i Ben y Lôn : dyna fel y gwelsai Benni ef : a hynny'n aml ddigon.

Ryw fore cyn dydd yr oedd Marged Blaenyrhafod, wrth fyned a phedwar o foch i'r farchnad i Landysul, wedi canfod pumed mochyn yn ymrithio ymysg y lleill, ac yna'n ditlannu'n ddisymwth o dan y garreg wen o dan yr hon y gorffwys y brenin. Yr oedd yr hen ben-coronog wedi gorfod disgyn yn isel y bore hwnnw er mwyn talu ymweliad a'i lwybrau cynefin. Ond dyna'r tro olaf i Farged yrru moch i'r farchnad cyn dydd.

I Feti Pisgah yr oedd y toilu wedi ymddangos yn ei lawn ar-dderchawgrwydd brenhinol, wedi ei wisgo mewn gwenwisg laes a disglair, a choron aur ar ei ben ond, ei fod yn cario'i ben a'i goron o dan ei gesail !

Eglur yw erbyn hyn paham y gelwir y rhiw yn Riw'r Amwisg. Ac nid oes ond ychydig o blant y fro a fentra gerdded hyd-ddi yn y tywyllwch hyd y dydd heddiw. Da y cofiaf aros yn rhy hir ryw noswaith ar glôs Blaenglowon-fawr : ac o ganlyniad rhaid oedd i mi ddychwel adref dros y Rhiw am ddeg o'r gloch y nos. Nid anghofiaf fyth y dychryn a barai i fy nghalon guro fel gordd wrth fyned heibio'r garreg wen—er na welais ddim yn y byd.

Wrth gwrs y mae eraill na welsant y Bwci yno erioed ; y mae llawer ohonom, drwy drugaredd wedi cin geni'n ddall i'r fath ddrychiolaethau. Un felly oedd John Mowr Alltymaen. Ni fuasai dim ond tarw gwyllt o fewn dwylath yn tynnu sylw John mewn tywyllweh. Ac yr oedd ganddo esboniad plaenach na'r *sixth sense* i egluro ymddangosiad y Bwci. "Celwyddgi cythrel" (yn ol John) oedd Benni — a rhywbeth gwaeth oedd Pegi Blaenewrt a Marged y Blaen. Ond dyna : y mae dau fath o bobl yn dringo rhiwiau'r byd er dyddiau Adda : y rhai a welant ryfeddodau, a'r rhai nas gwelant ddim ond y llwyni eithin, a'r cloddiau a'r meini o dan eu traed."

"Ond, dyna," meddai Shon ; rwy wedi clebran digon am bethau 'slawer dydd : diehon nad ynt o ddiddordeb i neb ond ardalwyr Capel Cynon a Thalgarreg ; ond fel y dywedais, mae eu hadrodd wrth rywun sy'n eu deall ac yn meddu profiadau tebig gystal ag wythnos o ddŵr y môr i mi. Eu sgrifennu i lawr mewn du a gwyn ? Wel, os ydych chwi'n teimlo fod rhyw bethau dismol o'r fath yn werth eu cronicio, i lawr a nhwy. Efallai fod ambell i Gardi arall ar y dôl ; ac y bydd yr hen bethau hyn fel awel o Fanc Shon Cwilt iddo yntau hefyd."

SARNICOL.

Rebeca.

ANODD yw deall terfysg Rebeca, neu hanes datblygiad Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg heb gymryd cipolwg ar ein hanes o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, pan unwyd Cymru a Lloegr. Cyn i'r ddeddf honno gael ei lle ar lyfr cyfraith Prydain yr oedd cenedl y Cymry'n un : coleddent yr un grefydd ; siaradent yr un iaith. Yr oeddynt yn un yn eu hymdrech i wrthwynebu gormes y Sais ac i gadw iaith a defod gwlad ; yr oedd y bardd yn fardd yr arglwyddi tir ac yn fardd y werin—yn ddolen gydiol rhwng y ddau ddosbarth. Effaith y ddeddf oedd hollti'r genedl, yn werin ac yn arglwyddi tir. Cymerodd yr arglwyddi tir feddiant o ran helaeth o gyfoeth yr hen eglwys babaidd—tiroedd y mynachtai a meddiannau'r eglwysi cadeiriol— : adfeddiannodd y tir cyffredin trwy ganiatad y Senedd a chymorth cyfreithwyr. Hyn esbonia lymder y cyfeiriadau at gyfreithwyr yng ngweithiau Elis Wyn ac eraill. " Beth yw teiliwr a ddwg ddarn o frethyn wrth y gwr mawr a ddwg allan o'r mynydd ddarn o blwyf ? Beth yw sawdwr lledlwm a ddyco dy ddillad wrth ei gleddyf wrth y cyfreithiwr a ddwg dy holl ystad oddi arnat a chwil gwydd heb na iawn na rhwymedi i gael arno ? " meddai Elis Wyn ; ac nid syndod mai un o'r gwyr cyntaf a gyfarfu'r bardd yn uffern oedd cyfreithiwr. Yn gyfoethog yn y ddeunawfed ganrif, aeth yr arglwydd tir yn gyfoethocach yn y bedwaredd ar bymtheg.

Beth am y werin ? Collodd yr amaethwr ei etifeddiaeth : collodd ei hawl i'r tir cyffredin. Aeth yn dlotach, dlotach. Swllt yn y dydd, ar ei fwyd ei hun, oedd cyflog Ap Vychan.

> " Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
> Rhoi angen un rhwng y naw."

oedd tynged amaethwr Dewi Wyn. Mawr, felly, oedd y gagendor rhwng y meistri tir a'r amaethwyr.

Yn hyn o beth nid oedd, hwyrach, lawer o wahaniaeth rhwng sefyllfa gymdeithasol Cymru a Lloegr. Yno, fel yng Nghymru, yr oedd y werin mewn cyfyngder a thlodi, a'r ysgwieriaid cyfoethog yn eisteddleoedd awdurdod ymhob man. Eithr yr oedd yna wahaniaeth dirfawr hefyd ; yn Lloegr perthynai'r ddau ddosbarth i'r un eglwys. Addolent gyda'i gilydd yn eglwys Loegr. Siaradent yr un iaith. Felly, er y gwahaniaeth mewn cyfoeth a safle gymdeithasol, cyd-weithredai crefydd ac iaith i'w huno. Nid felly yng Nghymru. Yma siaradai'r werin Gymraeg ; addolent, gan

mwyaf, mewn capeli anghydffurfiol, tra addolai'r arglwyddi tir yn yr eglwys wladol: gan siarad ac addoli yn Saesneg. Mewn gair, cyd-weithredai'r tri gallu cryfaf mewn bywyd, sef cyfoeth, iaith, a chrefydd, i wahanu'r ddau ddosbarth yng Nghymru.

Yr oedd hyn o wahaniaeth pwysig hefyd rhwng gwerin Cymru a gwerin Lloegr. Yr oedd y naill yn fwy diwylliedig na'r llall. Nid yn ofer fu ysgolion teithiol Gruffydd Jones, ysgolion Sul Thomas Charles a Morgan John Rhys, ac ysgolion Samuel Jones, Brynllywarch a'i olynwyr. Trwy lafur ac ymdrechion y goreugwyr hyn ac awydd dihafal y werin am wybodaeth, cyrhaeddai diwylliant safon uwch yng Nghymru nag yn Lloegr ymhlith y werin. Nid barn bersonol ddisail mo hon. Dyna hefyd oedd barn yr Arglwydd Lingen, Cadeirydd Dirprwyaeth 1846, dirprwyaeth o Saeson uniaith. Anaml iawn y cwyd gwerin anwybodus mewn terfysg yn erbyn yr awdurdodau.

Er fod gwerin Cymru yn werin ddiwylliedig, diwylliant crefyddol yn unig ydoedd yn ei ansawdd: a gorchwyl cyntaf arweinwyr y werin ydoedd eu darbwyllo o'r angenrheidrwydd o gymryd diddordeb mewn cwestiynnau cymdeithasol. Nid gorchwyl hawdd mohono. Gwnaeth diwygiadau'r ddeunawfed ganrif y werin Gymreig yn werin grefyddol, a Chymru yn wlad y menyg gwynion. Aeth y Cymro mor grefyddol yn ei syniadau nes llwyr anwybyddu popeth bron oddieithr crefydd a dadleuon diwinyddol. Edrychai ar etifeddiaeth fel rhywbeth a berthynai i ddiafol. Dyna ogwydd meddwl John Elias o Fon. Pwysigrwydd Joseph Harris (Gomer) yn hanes Cymru oedd ei waith yn anturio cyhoeddi papur anenwadol —sef, *Seren Gomer*, i geisio dylanwadu ar ei gydwladwyr i gymryd diddordeb mewn pynciau cymdeithasol. Cwynai dro ar ol tro na fedrai ei ohebwyr ysgrifennu ar unrhyw destun ond ar y ddadl rhwng Armin a Chalfin. "Yr ydych" meddai "yn credu'n ddiysgog, er cryfed eich Protestaniaeth, yn yr hen ddiareb Babaidd mai 'Anwybodaeth yw mammaeth duwioldeb': yn credu mai amod duwioldeb yw bod yn anwybodus o gwestiynnau ymarferol." Yn ddiweddarach yn y ganrif ceir yr un ogwydd meddwl ymhlith y Cymry. "Am blant tlodion Cymru, os gallant ddarllen eu Beibl, a gwybod y ffordd i'r bywyd, mae hynny'n llawn digon," meddai Mari Lewis wrth ei mab Bob, y bachgen a chwenychai oleuo'i gydweithwyr ar gwestiynnau cymdeithasol. Pan daflwyd Bob i garchar, paham y goddefai Rhagluniaeth iddo gael y fath gam? Atebai ei fam: "Er mwyn ei ddwyn yn ol i'r cysgod, ac i achub Tomos a Barbara Bartley."

Anhawster arall arweinwyr y werin oedd swildod yr amaethwr. "Mae nhw rwfodd fel slafs, yn rhy swil i godi'u pennau ond yn y

stabal ac ar ddiwrnod troi am y goreu." Yr oedd ymddygiad y werin tuag at "eu gwell" yn debycach i ymddygiad caethweision nag eiddo dynion rhydd. Ac eto, trwy ddylanwad Joseph Harris ac eraill fe gafodd y werin ddigon o wrhydri ac o nerth moesol i ymosod ar freiniau pendefigion gwlad a llwyr ddinystrio'u huwchafiaeth mewn llai nag hanner canrif. Eithr nid heb gyffro a therfysg, a'r terfysg cyntaf oedd terfysg Rebeca; gwrthryfel cyntaf y Cymry ers canrifoedd. Gwrthryfel ydoedd yn erbyn gorthrwm yr arglwyddi tir a'r llywodraeth Seisnig; gwrthryfel yr amaethwr yn erbyn y tollbyrth, ie; ond gwrthryfel hefyd i gael cyflog a fyddai'n ddigon i'w gynnal ef a'i deulu heb fyn'd i'r tloty, a therfysg i osgoi talu'r degwm. Paham na fu terfysg cyffelyb yn Lloegr? Am fod yr amaethwr a'r llafurwr Cymreig yn fwy diwylliedig, ac wedi magu digon o wroldeb i ymladd brwydr rhyddid gwerinol tra'r oedd amaethwyr Lloegr hyd eto heb ddihuno o drwmgwsg y canol oesoedd. Cymru oedd yn y rheng flaenaf yn y frwydr dros weriniaeth ym Mhrydain, a baner Rebeca oedd ei baner hi.

Nid oedd terfysg Rebeca, felly, ond arwydd o'r afionyddweh cymdeithasol a ffynnai yng Nghymru yn nechreu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. O'r diwedd ymestynnai'r werin at rywbeth uwch na bywyd anifail.

Yn y Deheudir y bu'r cyffro cyntaf, fel y gellid disgwyl. Yn y De y dechreuodd y Diwygiad Crefyddol, ac yn y De dechreuodd hefyd y diwygiad cymdeithasol, yn y rhannau hynny o'r wlad lle bu Edmund Jones, Pontypwl, Daniel Rowland Llangeitho, a Gomer yn llafurio. Fe ŵyr pawb sydd yn gyfarwydd a braslun o hanes Cymru mai y tollbyrth oedd achos uniongyrchol terfysg Rebeca. Yr oedd y tollbyrth wedi cynyddu cymaint mewn nifer nes eu bod yn ormes annioddefol ar amaethwr cyffredin. Er enghraifft, yr oedd yn rhaid i'r ffermwr wrth galch, ac yn aml cludid y nwydd ryw ugain milltir o bellter. Yr oedd rhwng bob ychydig filldiroedd dollborth lle gorfodid i'r ffermwr dalu treth. Gorfodid talu wrth dair ohonynt wrth fyned trwy dref Caerfyrddin yn unig. Cymaint oedd y dreth fel yr oedd cost nwyddau angenrheidiol i'r ffermwr yn fwy na'r dwbl cyn cyrraedd y fferm. Prif amcan treth y tollbyrth oedd gwella'r prif-ffyrdd, ond ni wariwyd y dreth ar hyn o amcan, ac nid oedd yr heolydd nemor gwell na'r llwybrau creigiog dros y mynyddoedd.

Ymhellach, yn 1834, pasiwyd deddf i orfodi'r tlawd a fyddai'n derbyn cymorth plwyf i fyn'd i'r tloty. Am agos i hanner canrif yr oedd hawl gan y llafurwr tlawd i dderbyn cymorth ariannol o'r plwyf oni fyddai ei gyflog yn ddigon i'w gynnal ef a'i deulu. Di-

ddymwyd y ddeddf honno, a gwthiwyd miloedd i'r tloty neu i dlodi anniddefol. Tua'r un adeg gosodwyd deddf arall ar lyfr cyfraith Prydain Fawr, sef y ddeddf a wnaeth y degwm yn rhan o'r rhent. Ni bu wrthwynebiad yn Lloegr am fod y ffermwr a'r arglwydd tir yn perthyn i'r eglwys wladol; eithr yng Nghymru, lle yr oedd mwyafrif y ffermwyr yn anghydffurfwyr, cyfrifwyd y ddeddf yn orthrwm anghyfiawn.

Dyma fraslun o'r achosion a barodd i Rebeca a'i chanlynwyr i godi mewn gwrthryfel yn erbyn y Llywodraeth, i ddiwreiddio'r tollbyrth, ac i ymosod yn ffyrnig ar dloty Caerfyrddin a'i losgi. Mae'r genedl mewn dyled i brif arweinwyr y cyffro,—Twm, Carnabwth; Shoni Scubor Fawr, a Dai y Cantwr. Eithr pa faint o gof sydd am danynt, heb son am faint o anrhydedd a roddwyd iddynt? Caethgludwyd Dai y Cantwr ac fe ymadawodd â gwlad ei enedigaeth dan ganu—

Alltud wyf ar ddechreu'm taith,
Ca'm danfon o fy ngwlad—
Ty fy nhad, er codiad tirion,
I blith y duon gôr,
Dros y môr o'm goror gron.
O'r fath ddrychin i mi ddaeth!
Alltud hir. Gyr hyn fi'n gaeth
Dros ugain o flynyddoedd.

A ddaeth rhyw les i Gymru o'i alltudiaeth ef ac aberth ereill? Do. Trwy ymdrech Henry Richard o Dregaron penodwyd dirprwyaeth gan y Llywodraeth i chwilio i mewn i sefyllfa'r amaethwyr yng Nghymru, ac yn enwedig i fater y tollbyrth, ac o dipyn i beth daeth gwaredigaeth nid i Gymru yn unig, ond i Loegr hefyd: ac nid dyma'r unig enghraifft yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod Cymru yn y rheng flaenaf yn y frwydr dros weriniaeth ym Mhrydain. Brwydr gwerin Cymru yn etholiad 1868, a'r dioddef a fu wedi'r fuddugoliaeth a barodd i ddeddf y tugel gael ei rhoi mewn grym. Cymru hefyd ymladdodd frwydr y dreth eglwys, a brwydr y degwm. Pwysigrwydd Beca yn hanes Cymru a Phrydain yw mai hi gychwynnodd y frwydr.

Aberaeron. HOWELL T. EVANS.

Priodas.

Chwefror 6, yng Nghapel Pantydefaid gan y Parch. T. Arthur Thomas unwyd mewn glan briodas Mr. William John Evans, Rampant Lion, Capel Dewi a Miss May Olwen Jones, Cwmdyllest. Y bendithion goreu ddilyno'r briodas.

Marwgofion.

Chwefror 12, Mr. Evan Jones, Teifi View, Llanfihangel-ar-arth. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Dregaron, ond ymsefydlodd pan yn wr ieuanc, a bu fyw drwy ei oes yn ardal Llanfihangel yn fawr ei barch gan bawb hyd y diwedd. Yr oedd yn un o gymeriadau adnabyddus yr ardal, a chanddo feddwl craff a goleuedig, barn addfed ac yn gymydog caredig. Pan gynhelid gennym gyfarfodydd crefyddol yn ei ardal flynyddoedd yn ol buasai ef fynychaf yn bresennol. Bu yn ddarllenwr cyson o'r Ymofynnydd am gyfnod maith, a phleser oedd bob amser cael ymddiddan ag ef. Y dydd Gwener dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent eglwys Llanfihangel-ar-arth, y Ficer yn gwasanaethu yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. S. Davies, (M.C.), Cwmdwyfran.

Margaret Jenkins, Penydarren, Merthyr Tydfil, yn 85 mlwydd oed, gweddw James Jenkins a merch John a Sarah (Salli) Enoch, hen aelodau Hen Dy Cwrdd, Cefncoed Cymer. Bu yr ymadawedig farw o'r *bronchitis* dydd Sadwrn, Chwefror 25ain a gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mynwent yr Hen Dy Cwrdd y dydd Mercher canlynol. Mam annwyl a mwynaidd, yn hollol ddidramgwydd ac iddi air da gan bawb a'i hadwaenai. Gadawodd fab a dwy ferch i alaru ei cholli.

Siriol fu tan heulwen cariad,
Ond daeth storm i darfu'r hedd.
Llym y ddyrnod, chwerw y profiad
Heddiw y mae'r fam mewn bedd.

Chwefror 28, ar ol bod yn gwaelu yn raddol am yn agos i ddwy flynedd Hannah, annwyl briod Simon Jones, Ddolwen, Talgarreg yn 49 oed. Gadawodd mewn galar ei phriod, tri o blant, dwy chwaer a dau frawd a llawer o berthynasau ereill. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym Mwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins; W. E. Baker (E.), a Glyn Edwards (B.). Pan yn ferch ieuanc bu'n ffyddlon iawn gyda'r achos yn y Bwlch—yn enwedig gyda y canu. Yr oedd yn hoff iawn o ganu ac yn ei hamser goreu yr oedd ganddi lais defnyddiol mewn cor a gwasanaeth cyhoeddus. Wedi dechreu magu plant methodd fod mor ffyddlon. Yr oedd yn fenyw ysbrydol iawn. Wedi i'r corff fynd yn llesc ac i'r iechyd gilio daliai ei hysbryd yn gryf a hoew. Fel llawer i briod a mam ar yr aelwyd ac yn y cartref y rhagorai. Yma rhoddodd wasanaeth da a ffyddlawn. Cadwai ei haelwyd yn glyd a glanwedd; ymhyfrydai mewn cadw'r ardd yn lan a thyfu blodau. Nid oedd dim yn ormod ganddi i'w wneud dros ei phriod a'i phlant. Bu'n briod lafurus ac yn fam ofalus—mam wnai roi cyngorion lawer i'w phlant ar iddynt wneud ac ymddwyn yn weddaidd. Mae colled y teulu yn fawr iawn ac nis gallwn lai na theimlo drosto. Hyderwn y ca'r priod a'r plant nerth i gadw cartref clyd eto a gwybod am "y diddanwch sydd oddi uchod."

Mawrth 6, yn 69 mlwydd oed bu farw Jane Evans, annwyl wraig y Parch. David Evans, gweinidog Capelygroes a Chribin, wedi cystudd byr ond caled o ryw wythnos. (Gweler manylion mewn man arall.) Claddwyd y dydd Gwener canlynol ym mynwent Capelygroes pan ddaeth torf fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Conwil Evans, pregethwyd yn y Capel gan y Parch. T. O.

Williams, M.A. a chynorthwywyd yn y Capel gan y Parchn. Prifathro J. Park Davies, M.A. a T. Arthur Thomas, Llandysul. Gadawodd ei phriod, dwy chwaer a pherthynasau eraill mewn galar o'i cholli.

Yn Ingledene, West Cross, Abertawe, ar y 7fed o Fawrth bu farw Mary Elizabeth Thomas, annwyl wraig George Thomas, cynysgolfeistr Ysgol y Bwrdd, Cwrtnewydd, o ba le y symudasant yn 1902. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf bu yn byw yn Hwlffordd, lle y gwasanaethai fel is-athrawes yn yr un ysgol a'i gwr. Gwraig hynod graffus ydoedd, yn meddu gallu meddyliol cryf, ac yn athrawes tuhwnt i'r cyffredin. Taflai ei hun yn llwyr i'w gwaith, ac yn fam i blant, ni chafodd un trafferth i reoli ei dosbarth, a mawr oedd ei pharch gan yr ysgolheigion. Yr oedd yn gymydoges ragorol, yn dirion a hael tuag at y tlawd a'r anghenus, ac ni chafodd erwydryn erioed ei anfon i ffwrdd yn waglaw. Ymaelododd gyda'r Annibynwyr yn Saron, Aberaman, Aberdar, pan oedd yn ifanc, a thra ym Mhenfro mynychai y Tabernacl, Hwlffordd o dan weinidogaeth y Parch. E. Nicholson Jones, un o flaenoriaid yr enwad yn Sir Benfro. Wedi ymddiswyddo o'r ysgol symudodd y teulu i Abertawe, ond gwaethygodd ei hiechyd yn gyflym, ac ni fu yn alluog i fyned allan o'r ty, ond am ychydig amser yng ngwres yr haf. Gwanychu wnaeth o dan boenau arteithiol yn cael eu hachosi gan y gelyn anwelladwy—y *cancer*; ac wedi cystudd maith a chaled, yr hwn a ddioddefodd yn amyneddgar, ehedodd ei hysbryd at yr Hwn a'i rhoes ar y dydd uchod. Claddwyd ei gweddillion y Sadwrn canlynol yng Nghladdfa Gyhoeddus Prendergast, Hwlffordd, pan y gwasanaethwyd ar lan y bedd gan ei hen weinidog y Parch. E. Nicholson Jones. Gadawodd i alaru ar ei hol wr, mab a merch (yr hon sydd wedi ymfudo i Ganada) tri o wyrion, a lliaws o berthynasau a ffryndiau.

(Y mae llu o hen ysgolheigion heblaw'r Golygydd yn cydymdeimlo o galon a Mr. Thomas a dywedwn "yr ym yn rhwym gyda chwi.")

Mawrth 9, yn 50 mlwydd oed, yn Llanelli, wedi cystudd hir bu farw J. James Davies ("Jim Glyn") gynt o'r Glyn Shop, Cwmanne, Pencarreg. Wedi claddu ei wraig flynyddoedd yn ol, aeth i Lanelli a chafodd ddamwain. Collodd aelod ac ni welodd ddydd iach byth wedyn. Dihoenodd yn raddol ac ehedodd ei ysbryd ymaith ar y dydd uchod. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym medd ei wraig ym mynwent Eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd ym Mrondeifi gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd blant amddifaid a pherthynasau ereill i alaru o'i golli.

Mawrth 10, David Davies, annwyl briod Rachel Davies, Rhiwfelen, Goginan, yn 58 oed. Claddwyd y Mawrth dilynol ym Mwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y capel a'r fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins. Mab ydoedd i'r diweddar Evan a Mary Davies,Croesgwyn, Meinigwynion. Teiliwr oedd wrth ei alwedigaeth ac am flynyddoedd bu'n dilyn ei grefft yn Sir Forganwg ond yn anffodus iddo collodd ei iechyd yn gynar a dychwelodd i'w Sir enedigol i fyw gan roddi ei grefft i fyny. Cariodd gorff afiach am flynyddoedd—deallwn iddo fod yn gystuddiol iawn yn ystod ei fisoedd olaf—er hynny cadwodd yn siriol o ysbryd. Yr oedd o anian ddiniwed a chymwynasgar. Yr oedd yn gwmniwr da ac nis gellid llai na hoffi ymgom ag ef. Cwyna llawer heblaw ei bobl ei hun ei farw. Gadawodd mewn galar briod, dwy chwaer, pedwar brawd a llawer o berthynasau ereill.

Sadwrn, Mawrth 10 yn 61 mlwydd oed, John J. Williams, Heolygraig, Trebanos. Anodd gwybod yn iawn ble, na sut i ddechreu cofnodi marwolaeth ein diweddar gyfaill a brawd, Johnny Williams, fel y'i gelwid, ac yr adnabyddid ef gan bawb ym mhob man, bron. Ymgeisiwyd, flwyddi'n ol, i newid Johnny, yn John—ond Johnny a safodd ei dir, ac am a wn i na safodd yn gryfach lawer wedi'r ymgais. Beth bynnag bu farw un o gymeriadau hynotaf y cylchoedd a'r Cwm. Aelod crefyddol trylwyr a phybyr, er yn

ieuanc iawn. Yr oedd ei annwyl dad, fel y cofiaf yn dda yn sgolhaig llenorol da; a chodwyd Johnny i fyny yn y naws hyfryd hwn. Gwasanaethodd drwy ei dalent i adrodd gydag helaethrwydd mawr. Gelwid am dano ym mhob rhan o gymdeithas a medrai ddal torfeydd ar flaenau ei fysedd, gan mor effeithiol yr adroddai a gwnaeth enw anniflannol iddo ei hun, enw a fydd byw gyfnod hir. Bu'n athraw eithriadol ffyddlon ar ddosbarth o ferched yn yr Ysgol Sul am oddeutu deugain mlynedd. Meddai ar gymhwyster i'r gwaith hwn. Erys llu o galonnau hiraethus ar ol yn ei ddosbarth presennol, yng nghyd ac ereill y sydd erbyn hyn yn bennau teuluoedd, a llawer mewn safleoedd pwysig ereill. Bydd eglwys y Graig a Gellionnen yn llwmach o golli'r ymadawedig. Bu'n aelod hefyd o Seindorf Arian Trebanos am dymor hir; ac yn ysgrifennydd da. Ac o ganlyniad galwyd arno i gymryd y swydd o ysgrifennydd "Cymdeithas Seindyrf Pres Gorllewin Morgannwg," oddiar ei chychwyniad,—tua saith mlynedd ar hugain yn ol, a gwnaeth ei waith yn anrhydeddus. Prawf o hyn oedd y ffaith i nifer o Seindyrf addaw dod i chwareu yn ei angladd. Ond trefnwyd i ddau o honynt, sef Seindyrf Arian Gwaencaegurwen ac Ystalyfera (Cwmtawe) yn unig, i roddi ei presenoldeb, dan arweiniad Mri. Tal Morris, Gwaencaegurwen a Evan J. Evans, Ystalyfera. Chwareuodd y ddau hyn bron yr oll o'r ffordd faith a garw,—garw ddigon i ddal offeryn wrth y wefus, a theithio i fyny y rhiw. Chwareuwyd cyn cychwyn yr angladd ac ar lan y bedd, a theimlwyd yr effaith yn rhyfedd. Angladd oedd y bydd yn dasg ei anghofio. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Johns, Trebanos; L. G. Lewis a W. Davies, Pontardawe. Gedy ar ei ol fab a merch y sydd wedi dod i fyny i oedran cyfrifol. Sicr yw y bydd i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, noddi'r weddw unig adawyd i alaru yn yr anial. Ac fel arwydd o barch, daeth cynrychiolwyr o bron yr oll o'r Seindyrf perthynnol i'r Gymdeithas a nodwyd.

Harddaf was diwydrwydd fu,—a heulwen
Aelwyd; gymrawd mwyngu;
O'i fodd, fe dynnodd o'i du
Wersi oes o groes Iesu.

Mynd adref mewn diwydrwydd,—fynnai ef
Yn ei waith i'w Arglwydd;
Fywiol sant, i'r nefol swydd—aeth yn glau
O gyrraedd ei ddagrau i ddiddigrwydd.

BANOS.

CYDNABYDDIAETH.

Mr. GOLYGYDD,—

Caniatewch imi ychydig o'ch gofod i gyflwyno fy niolch gwresog i bawb a amlygodd eu cydymdeimlad a mi yn fy nhrallod o golli fy annwyl briod. Darfu i nifer luosog ysgrifennu ataf—rhy luosog imi fedru eu cydnabod yn un ac un; ac ymwelodd nifer luosocach eto a mi yn fy nghartref. Heblaw i gynulleidfaoedd Capelygroes a Chribyn a brofais yn eithriadol garedig, yn ol eu harfer, diolchaf hefyd i gynulleidfa'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar, am eu pleidlais o gydymdeimlad a gyflwynwyd imi drostynt gan ei gweinidog. Ni raid imi ddweyd fy mod yn gwerthfawrogi yr oll yn fawr iawn.

Capelygroes a Chribyn. D. EVANS.

Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw "Nodion yr Eglwysi" drosodd hyd y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.